

Y Casglwr

Rhif 71 Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn • Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn GWANWYN 2001

Maredudd ap Huw yn trafod un arall o **ARLOESWYR Y DIWYDIANT DIODYDD YSGAFN**

Bu cyhoeddi ysgrif ddiddorol Owen Vernon Jones, 'William Evans – Tywysog y Porth (1864-1934)' yn rhifyn Pasg y llynedd (rhif 68) o'n cylchgrawn, ynghyd â ffrwyth ei ymchwil ddiwyd yn y gyfrol *Prince of Porth*, yn gyfrwng i'n hatgoffa fod yna Gymro arall hefyd, ar wahân i'r gŵr o'r Porth, wedi arloesi ym maes diodydd ysgafn yng Ngwledydd Prydain.

Roedd y gŵr hwnnw'n llafurio yn y maes – ond mewn cyfeiriad gwahanol wrth reswm – mewn cyfnod o flaen William Evans; sefydlodd y naill ei fusnes prysur a helaeth yn Camden Town yng Nogledd Llundain yn 1873, ac agorwyd ffatri fawr yn dwyn enw'r llall yn Willesden, er mwyn darparu diodydd Corona i ardal y Metropolitan, dros drigain mlynedd yn ddiweddarach.

Pwy ynteu oedd 'Y Dyn Pop' cymharol ddi-sôn-amdano erbyn heddiw (na cheir mo'i enw yn *Y Bywgraffadur Cymreig* gyda llaw), ond a haedda le amlwg fel diwydiannwr, yn arbennig ym maes cynhyrchu 'dyfroedd mwynol', ys gelwid hwy?

Yn rhai o hen gylchgronau a phapurau newydd y genedl, yn arbennig rhai wedi eu cyhoeddi yng nogledd-ddwyrain Cymru, ceir ambell gyfeiriad ato gan hwn a'r llall fel gwleidydd, ac fel y bu iddo, fel Rhyddfrydwr, drechu'r Ceidwadwr, J.E. Banks yn Etholiad 1906, ac yna dreulio rhyw bedair blynedd fel Aelod Seneddol dros Fwrdeistref y Fflint. Bu amryw hefyd unwaith yn holi pam tybed y penderfynodd y cyn-Aelod beidio â rhoi ei enw ymlaen fel ymgeisydd yn Etholiadau 1910 a 1913 ar gyfer yr un sedd? Beth bynnag oedd y rheswm pennaf am y penderfyniad annisgwyl hwnnw – prysurdeb gwaith o bosibl – ychydig iawn fu'r sôn amdano fel gwleidydd yn ystod blynyddoedd diweddarach y ganrif, a llai byth efallai (yng Nghymru beth bynnag) o sôn am ei lwyddiant fel fferylllydd ac fel masnachwr diodydd ysgafn.

Petai'n fyw heddiw, mae'n eithaf siŵr y byddai ef ei hun yn falch iawn o wybod fod yna o leiaf un peth sy'n dal i'n

hatgoffa amdano, a hwnnw yw'r enw *IDRIS* ar labelau poteli rhai o'r diodydd ysgafn a werthir yn y prif archfarchnadoedd a mannau eraill. Mae'r cynnyrch hwn erbyn heddiw yn cael ei fasnachu gan neb llai na chwmmi enwog *Britvic*, cynhyrchwyr diodydd *Pepsi*, *Robinsons* a *Tango*.

Onid i ddechrau'r stori o'r dechrau, – stori sy'n adrodd fel rhan o nofel antur mewn rhannau beth bynnag, – fe aned Thomas Howell Williams, yn ôl ei dystiolaeth ef ei hun wrth ohebydd Saesneg un tro, yn Sir Benfro ar Awst 5, 1842, yn ail fab i Benjamin Williams, amaethwr, a'i briod Emeline, merch i John Travena o Ddoc Penfro. Yn wyth oed, dechreuodd fynychu'r ysgol leol yn Tavernspite (lle y clywodd y Saesneg am y tro cyntaf o'i fywyd, meddai), ac aros yno am bedair blynedd yn unig, sef hyd nes i'w dad, a oedd yn ddiakon amlwg gyda'r Bedyddwyr, benderfynu ei dynnu o'r ysgol ar ôl deall fod y plentyn yn cael ei orfodi i ddysgu adrodd Catecism yr Eglwys Esgobol!

Yn dilyn hyn, anfonwyd y bachgen i dreulio cyfnod fel prentis o ddilledydd i Drefynwy, ond dihangodd oddi yno yn ôl yr hanes, yn bennaf am nad oedd busnes dilledydd yn rhywbeth at ei ddant, a hefyd am fod un o'r gweithwyr hŷn yn ymddwyn yn angharedig tuag ato. O Drefynwy, symudodd i Lyn Ebwy, lle roedd cefnder iddo mewn busnes fel fferylllydd, ac yn ystod y pedair blynedd a dreuliodd fel prentis i'r gŵr hwnnw y dechreuodd ymddiddori o ddifrif mewn cemeg, ac y penderfynodd y byddai yntau hefyd yn treulio'r gweddill o'i fywyd yn yr un maes.

Trwy gyfrwng ei waith bob dydd, daeth i gysylltiad ag amryw o feddygon, a'i gynghori gan un yn arbennig i ddilyn cwrs mewn meddygaeth. Yn anffodus, bu'n rhaid iddo roi'r syniad hwnnw o'r neilltu oherwydd prinder arian, a bod disgwyl iddo anfon rhan o'i gyflog prin i'w

Parhad ar y cefn



Thomas Howell Williams Idris, A.S. dros Fwrdeistref Y Fflint